



WALES **AUDIT** OFFICE
SWYDDFA **ARCHWILIO** CYMRU

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol – Awst 2010



Cyf: 423A2010

Llun trwy garedigrwydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

Arweiniwyd Tîm Asesu Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful gan Colin Davies (Swyddog Arweiniol Asesu Gwelliant) a Jackie Joyce (Cydlynnydd Asesu Gwelliant) a PricewaterhouseCoopers o dan gyfarwyddyd Jane Holownia (Partner).

Yn yr hinsawdd ariannol newydd, bydd yn anoddach i Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful gynnal momentwm o ran gwella oni bai bod ei raglen o fentrau newid yn cael ei gweithredu ochr yn ochr â blaenoriaethau strategol clir, strategaeth ariannol tymor canolig glir a threfniadau rheoli pobl effeithiol.

**Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ
Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660
E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk**

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) na, lle y bo'n gymwys, yr archwilydd penodedig, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwyllir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partiion perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei harchwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.



Cynnwys

| | |
|--|----|
| Crynodeb | 4 |
| Rhan 1: Sut mae'r Cyngor wedi mynd ati i sicrhau gwelliant dros amser | 6 |
| Mae prosesau datblygu corfforaethol y Cyngor wedi ei wasanaethu'n dda ond mae angen gwneud cysylltiad cliriach â'i agenda strategol er mwyn i'w drefniadau corfforaethol gefnogi gwelliant parhaus yn yr amseroedd heriol sydd o'i flaen | 6 |
| Mae'r Cyngor wedi sicrhau gwelliant sylweddol o sylfaen weddol isel ers 2003 | 6 |
| Mae trefniadau cyfredol wedi datblygu i wella effeithiolrwydd ond nis cysylltir ddigon ag agenda gwella strategol | 6 |
| Nid yw'r Cyngor yn debygol o gynnal gwelliant parhaus oni bai ei fod yn achub ar y cyfle a gyflwynir gan newidiadau mewnol diweddar i egluro ei flaenoriaethau sicrhau bod ei gynlluniau ariannol a gwella yn fwy cydnaws | 7 |
| Rhan 2: Dadansoddiad o drefniadau'r Cyngor i'w helpu i wella | 9 |
| Mae llawer o agweddau ar drefniadau'r Cyngor yn effeithiol ond nid ydynt wedi'u sefydlu i gefnogi agenda strategol glir ac mae trefniadau rheoli pobl wedi'u tanddatblygu | 9 |
| Mae gan y Cyngor drefniadau cadarn ar waith i nodi risgiau, sydd wedi'u tanategu gan waith rheoli adnoddau gweithredol effeithiol, prosesau llywodraethu cywir ac ymagwedd gadarnhaol at bartneriaethau | 9 |
| Er bod y Cyngor yn ymchwilio i opsiynau i sicrhau gwerth am arian, dylai'r dystiolaeth sydd ar gael i gefnogi'r gwaith strategol o reoli ei adnoddau fod yn gryfach | 10 |
| Mae'r Cyngor yn adolygu ei flaenoriaethau strategol yn sgîl yr heriau y mae'n eu hwynebu ond hyd yma nid yw wedi datblygu manylion ei amcanion gwella na'i drefniadau cynllunio busnes | 11 |
| Mae prosesau rheoli pobl wedi'u tanddatblygu o hyd ac nid yw'n helpu'r Cyngor i sicrhau gwelliant | 12 |

Crynodeb

- 1 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) (2009) (y Mesur) mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal Asesiad blynyddol o Welliant ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru; hynny yw cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.
- 2 Er mwyn bodloni'r gofyniad hwn, bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal:

 - Asesiad Corfforaethol - sy'n asesu trefniadau awdurdod i sicrhau gwelliant parhaus;
 - Asesiad o Berfformiad – sy'n asesu p'un a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo.
- 3 Nod y dull hwn o weithredu yw cynnal asesiad sefydliad cyfan ym mhob awdurdod mewn modd safonol. Gyda'i gilydd, bydd y ddau asesiad hyn yn sail i adroddiad blynyddol i ddinasyddion, a elwir yn Adroddiad Gwella Blynyddol.
- 4 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cyfuno ei gwaith hi, gwaith yr Archwilydd Penodedig, a gwaith rheoleiddwyr perthnasol eraill, i lywio'r Asesiad Corfforaethol. Gan mai hon yw blwyddyn gyntaf y dull gweithredu newydd, mae'r asesiad yn un rhagarweiniol a dylid ystyried yr adroddiad hwn yn adroddiad ar gynnydd. Bydd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hefyd yn ddiweddariad ar gyfer yr Asesiad Corfforaethol.
- 5 Ym mis Mawrth 2010, nododd yr Archwilydd Cyffredinol yr her ariannol sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru mewn adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol, sef Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus. Mae CLILC, CIPFA a SOLACE wedi tynnu sylw hefyd at yr effaith y gallai gostyngiadau mewn gwariant ei chael ar lywodraeth leol. Mewn tystiolaeth i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mehefin 2010, nododd CLILC, 'ni ellir osgoi'r ffaith y bydd yn rhaid i bob rhan o'r sector cyhoeddus edrych ar ei gwariant presennol a'r gwasanaethau a ddarperir ganddi – ni ellir cywiro'r diffyg drwy arbedion effeithlonrwydd yn unig'. Er mwyn ymateb i'r her hon, mae'n rhaid i awdurdodau lleol gynnal adolygiad sylfaenol o'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt a sut y cânt eu darparu, gan ystyried dewisiadau ar gyfer cynyddu lefelau caffael yn hytrach na darparu gwasanaethau a chydweithio. Lluniwyd yr Asesiad Corfforaethol yn y cyd-destun hwn.
- 6 Mae'r adroddiad hwn ond yn nodi canfyddiadau'r Asesiad Corfforaethol a'i ddiben yw ateb y cwestiwn:

'A yw trefniadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (y Cyngor) yn debygol o sicrhau gwelliant parhaus?'
- 7 Y casgliad sy'n deillio o'n Hasesiad Corfforaethol cyntaf yw: yn yr hinsawdd ariannol newydd, bydd yn anoddach i'r Cyngor gynnal momentwm o ran gwella oni bai bod ei raglen o fentrau newid yn cael ei gweithredu ochr yn ochr â blaenoriaethau strategol clir, strategaeth ariannol tymor canolig glir a threfniadau rheoli pobl effeithiol.



8 Seiliwyd ein casgliad ar ein hasesiad o gynnydd y Cyngor dros amser a dadansoddiad o gryfderau a gwendidau ei drefniadau i ategu gwelliant. Ceir esboniad manwl o'r casgliadau hyn yn Rhan 1 a Rhan 2 o'r adroddiad, yn y drefn honno. Nodwyd y canlynol:

- mae prosesau datblygu corfforaethol y Cyngor wedi ei wasanaethu'n dda ond mae angen gwneud cysylltiad cliriach â'i agenda strategol er mwyn i'w drefniadau corfforaethol gefnogi gwelliant parhaus yn yr amseroedd heriol sydd o'i flaen;
- mae llawer o agweddau ar drefniadau'r Cyngor yn effeithiol ond nid ydynt wedi'u sefydlu i gefnogi agenda strategol glir ac mae trefniadau rheoli pobl wedi'u tanddatblygu.

9 Gan mai Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol yw hwn, mae sawl maes lle mai dim ond gwaith cyfyngedig sydd wedi bod yn bosibl. Byddwn yn parhau i adeiladu ar yr asesiad rhagarweiniol hwn a monitro cynnydd yn y misoedd i ddod er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn ein Hadroddiad Gwella Blyneddol i'w gyhoeddi ym mis Tachwedd 2010.

Arolygiadau arbennig

10 Yn seiliedig ar yr Asesiad Corfforaethol, nid yw'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cynnal arolygiad arbennig o'r Cyngor o dan adran 21 o'r Mesur nac argymell y dylai Gweinidogion Cymru roi cymorth i'r Cyngor drwy arfer eu pŵer o dan adran 28 o'r Mesur na rhoi cyfarwyddyd o dan adran 29 o'r Mesur.

Meysydd i'w gwella

11 Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol wedi gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella i'r Cyngor o dan adran 19 o'r Mesur ond awgrymir cynigion ar gyfer gweithredu isod.

Arddangosyn 1: Meysydd i'w gwella

C1 Ar gryn fyrder, datblygu blaenoriaethau ac amcanion gwella clir sy'n cyfrannu at gyflawni'r Strategaeth Gymunedol newydd a gwireddu gweledigaeth y Cyngor.

C2 Paratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella Corfforaethol newydd sy'n:

- adlewyrchu'r rhan a chwaraeir gan y cyhoedd a rhanddeiliad wrth bennu blaenoriaethau;
- nodi amcanion gwella'r Cyngor ynghyd â mesurau canlyniadau sy'n dangos p'un a yw'r Cyngor yn gwneud gwahaniaeth i fywydau dinasyddion Merthyr Tudful ac i ba raddau y mae'n gwneud hynny;
- dangos arweinyddiaeth gymunedol i reoli disgwyliadau dinasyddion yng nghyd-destun toriadau mewn gwariant cyhoeddus.

C3 Datblygu fframwaith strategol i gefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau ac amcanion gwella'r Cyngor, gan gynnwys strategaethau ar gyfer gwaith cynllunio ariannol, cynllunio'r gweithlu, a rheoli asedau tymor canolog.

C4 Symleiddio ac atgyfnerthu trefniadau rheoli perfformiad, gan sicrhau bod y gwaith o gynllunio gwasanaethau yn gwbl gydnaws â blaenoriaethau corfforaethol, a gynhelir yn gyson a bod systemau monitro perfformiad strategol yn gadarn ac yn heriol.

C5 Wrth weithredu ei gynlluniau i wella craffu, dylai'r Cyngor roi trefniadau ar waith i sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau yn glir ac y neilltuir amser i'r materion yr ystyrir eu bod bwysicaf.

Rhan 1: Sut mae'r Cyngor wedi mynd ati i sicrhau gwelliant dros amser

Mae prosesau datblygu corfforaethol y Cyngor wedi ei wasanaethu'n dda ond mae angen gwneud cysylltiad cliriach â'i agenda strategol er mwyn i'w drefniadau corfforaethol gefnogi gwelliant parhaus yn yr amseroedd heriol sydd o'i flaen

Mae'r Cyngor wedi sicrhau gwelliant sylweddol o sylfaen weddol isel ers 2003

- 12** Ym mis Ionawr 2003, lluniodd y Comisiwn Archwilio yng Nghymru adroddiad interim ar allu ac adnoddau corfforaethol y Cyngor i wella. Amlygodd yr adroddiad bryderon sylweddol am drefniadau a gallu ac adnoddau rheoli corfforaethol y Cyngor. Roedd yn amlwg y byddai'n rhaid i'r Cyngor weddnewid er mwyn sicrhau gwelliant parhaus.
- 13** Ym mis Ebrill 2004, nododd y Comisiwn Archwilio yng Nghymru fod y Cyngor yn bwriadu mynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd yn yr adroddiad interim a gweddnewid ei hun yn awdurdod lleol modern ac effeithiol.

14 Dechreuodd y Cyngor ei daith tuag at welliant drwy gyhoeddi Cynllun Gweddnewid tair blynedd a oedd yn cynnwys camau manwl ar gyfer gweddnewid y Cyngor drwy ailstrwythuro ei drefniadau rheoli a datblygu ei drefniadau corfforaethol. Y ffocws cyffredinol oedd sefydlu diwylliant o welliant parhaus a fyddai'n darparu gwasanaethau gwell i'w gwsmeriaid.

15 Cafwyd gwelliant sylweddol yn y blynyddoedd wedyn wrth i gamau'r Cynllun Gweddnewid gael eu cymryd, gan arwain at drefniadau corfforaethol, gan gynnwys gweld Adolygiadau Busnes Chwarterol, trefniadau rheoli risg a threfniadau rheoli perfformiad yn cael eu datblygu a'u cyflwyno ym mhob rhan o'r Cyngor. Mewn sawl ffordd mae'r Cyngor heddiw yn hollol wahanol i'r hyn yr oedd yn 2003.

Mae trefniadau cyfredol wedi datblygu i wella effeithiolrwydd ond nis cysylltir ddigon ag agenda gwella strategol

16 Er y cafwyd gwelliant sylweddol, mae arweinwyr y Cyngor yn cydnabod bod llawer i'w wneud o hyd i atgyfnerthu ei drefniadau corfforaethol. Mae hefyd yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod trefniadau yn galluogi'r Cyngor i barhau i wella yn yr amgylchedd economaidd newydd.



17 Ym mis Tachwedd 2009, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol a'r Archwilydd Penodedig Lythyr Blynyddol ar ddatganiadau ariannol, trefniadau corfforaethol a pherfformiad y Cyngor gan nodi'r materion allweddol i'r Cyngor ar yr adeg hon sef:

- roedd gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau yn 2008-09;
- gwelwyd darlun cymysg o gynnydd da a meysydd i'w gwella ymhellach mewn adolygiadau a gynhaliwyd o nifer o wasanaethau'r Cyngor;
- dangosodd yr adolygiadau fod llawer i'w wneud o hyd i baratoi at heriau sylweddol yn y dyfodol, er bod trefniadau corfforaethol cadarn ar waith;
- roedd yr asesiad risg wedi gwella, a thynnwyd sylw at fwy o heriau yr oedd angen eu rheoli;
- cafwyd bod y Cyngor yn gwneud cynnydd o ran ymgorffori egwyddorion llywodraethu da, ond roedd rhai meysydd i'w datblygu o hyd;
- roedd cysylltiadau rhwng yr elfennau allweddol o reoli perfformiad, ond roedd lle i symleiddio'r system bresennol o hyd;
- roedd cynllun rheoli asedau cyntaf y Cyngor yn gam mawr ymlaen, fodd bynnag, roedd angen mabwysiadu dull gweithredu mwy strategol;
- roedd dull y Cyngor o lywodraethu ei wybodaeth yn effeithiol wedi'i ddatblygu'n well mewn perthynas â'i wybodaeth electronig, ond roedd yn llai cadarn mewn perthynas â gwybodaeth ar bapur.

18 Daeth ein hadolygiad, a gynhaliwyd yn 2009, i'r casgliad er bod elfennau allweddol o waith rheoli perfformiad effeithiol bellach ar waith, nid yw fframwaith rheoli perfformiad cymhleth y Cyngor yn gwneud y cysylltiad rhwng cynlluniau gwasanaeth a blaenoriaethau corfforaethol yn effeithiol. Mae ansawdd prosesau cynllunio gwasanaethau yn dangos amrywiaeth eang ymhob rhan o'r Cyngor ac felly nid yw'n cefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor yn effeithiol. Nid yw'r systemau ar gyfer monitro cynnydd yn erbyn cynlluniau strategol allweddol yn gyffredinol yn ddigon clir, cadarn na chyson.

19 Mae angen i'r Cyngor ganolbwyntio ar ei flaenoriaethau allweddol a sicrhau bod y fframwaith rheoli perfformiad yn addas at y diben i gefnogi'r gwaith o'u cyflawni.

Mae'r Cyngor yn annhebygol iawn o gynnal gwelliant parhaus oni bai ei bod yn achub ar y cyfle a gyflwynir gan newidiadau mewnol diweddar i egluro ei flaenoriaethau ac alinio ei gynlluniau ariannol a gwella yn well

20 Ar ôl sicrhau gwelliant sylweddol dros nifer o flynyddoedd, mae'r Cyngor wedi bod angen adolygu llawer o'i drefniadau, yn arbennig yn sgîl yr heriau ariannol sy'n wynebu'r holl gyrrff cyhoeddus yn ystod yr hinsawdd economaidd gyffredol.

21 Mae'r Cyngor yn ymateb drwy gynnal nifer o fentrau a rhaglenni uchelgeisiol sy'n cynrychioli agenda newid sylweddol. Yn ddiweddar mae wedi ailstrwythuro'r tîm rheoli, gan leihau nifer ei gyfarwyddiaethau o bump i dair, ac mae wedi newid ei drefniadau gwleidyddol i'r model Arweinydd a Chabinet. Mae wedi datblygu, ac wrthi'n gweithredu, trefniadau

corfforaethol newydd ar gyfer rheoli prosiectau allweddol ac ardystio'i staff. Ymhlith y rhaglenni allweddol eraill yn ystod y broses weithredu mae:

- Rhaglen Effeithlonrwydd a Gwella
- Rhaglen Gweddnewid Ystadau
- Cynllun Gweithredu Cwsmeriaid yn Gyntaf

22 Mae'r Cyngor wedi modelu effaith bosibl llai o arian craidd gan Lywodraeth y Cynulliad yn y tymor canolig ac wedi pennu targedau arbedion effeithlonrwydd heriol ar gyfer pob gwasanaeth. Fodd bynnag, mae angen cysylltu'r cynllun ariannol dangosol tair blynedd gyda dogfennau strategol allweddol eraill fel y Cynllun Corfforaethol sy'n cael ei ddatblygu a nodau ac amcanion strategol y Cyngor. Ni all un weithredu ar wahân i'r llall a her allweddol i'r Cyngor fydd sicrhau bod ei gynllun ariannol tymor canolig sy'n datblygu yn cynrychioli'r strategaethau eraill mewn modd effeithiol a chytbwys.

23 Er mwyn i'r Cyngor sicrhau gwasanaethau gwell i'w ddinasyddion drwy weithredu'r trefniadau newydd hyn, bydd angen iddynt fod yn weddol gydnaws â chyflawni blaenoriaethau clir y mae holl staff y Cyngor yn berchen arnynt. Rhaid i uwch reolwyr ac arweinwyr y sefydliad roi cyfeiriad clir a rhaid bod llinellau atebolrwydd clir i sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni'n ôl y bwriad.



Rhan 2: Dadansoddiad o drefniadau'r Cyngor i'w helpu i wella

Mae llawer o agweddau ar drefniadau'r Cyngor yn effeithiol ond nid ydynt wedi'u sefydlu i gefnogi agenda strategol glir ac mae trefniadau rheoli pobl wedi'u tanddatblygu

Mae gan y Cyngor drefniadau cadarn ar waith i nodi risgiau, sydd wedi'u tanategu gan waith rheoli adnoddau gweithredol effeithiol, prosesau llywodraethu cywir ac ymagwedd gadarnhaol at bartneriaethau

- 24** Mae'r Cyngor wedi datblygu trefniadau rheoli risg cadarn ac mae'n parhau i'w hatgyfnerthu drwy'r sefydliad. Er enghraifft, mae'r Cyngor wedi sicrhau bod ei raglen effeithlonrwydd wedi bod yn destun asesiad risg. Mae prosesau asesu risg gorfforaethol y Cyngor yn gynhwysol ac, yn ogystal â mewnbwn gan reolwyr gwasanaeth, yn cynnwys cyfleoedd i aelodau a'r bwrdd gymryd rhan, yn ogystal â her fewnol yn cael ei rhoi gan y Tîm Rheoli Risg. O ganlyniad i hynny, mae gwaith asesu risg yn drwyadl ac yn gadarn, ac mae'n darparu llinell sylfaen y gellir monitro cynnydd yn ei herbyn.
- 25** Mae'r Cyngor yn rhagweithiol wrth wella ei brosesau llywodraethu. Lluniwyd Datganiad Llywodraethu Blynyddol gan y Cyngor am y tro cyntaf yn 2008-09 cyn bod gofyniad ffurfiol i wneud hynny.
- 26** Mae'r Cyngor wedi symud i fodel Cabinet ac Arweinydd. Er mai'r Arweinydd sydd wedi arwain y newid hwn, mae ganddo gefnogaeth y gwrthbleidiau. Mae'r Cyngor yn disgwyl y bydd y trefniadau newydd yn cyflymu'r broses gwneud penderfyniadau ac yn gwella effeithiolrwydd gwaith craffu.
- 27** Mae'r Cyngor wedi lleihau'n briodol nifer ei bwyllgorau craffu i adlewyrchu ei waith ailstrwythuro cyfarwyddiaethau ond mae'n cydnabod bod angen i'r newid hwn gael ei ategu gan hyfforddiant a chymorth ychwanegol i aelodau i wella perfformiad craffu a sicrhau y bydd grwpiau gorchwyl a gorffen yn effeithiol. I raddau, mae Adolygiadau Busnes Chwarterol wedi bod yn cyflawni rôl pwyllgorau craffu ond mae effeithiolrwydd Adolygiadau Busnes Chwarterol wedi amrywio oherwydd presenoldeb gwael ac anghysondeb yn rhywfaint o'r wybodaeth a gyflwynwyd ynddynt. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo adolygu'r defnydd o Adolygiadau Busnes Chwarterol a'u swyddogaeth.
- 28** Mae ymrwymiad gwleidyddol a chorfforaethol i lunio'r Strategaeth Gymunedol newydd a chafwyd cytundeb bod ganddi rôl sylfaenol i'w chwarae wrth bennu cyfeiriad y Cyngor a'i ddull o reoli perfformiad. Cafwyd mwy o berchenogaeth ac ymgysylltu mewn cyfarwyddiaethau wrth lunio'r Strategaeth Gymunedol newydd nag a gafwyd mewn perthynas â'r strategaeth flaenorol.

- 29** Mae'r Cyngor yn canolbwyntio'n fwy ar ymgysylltu â dinasyddion, gan sefydlu'r Bwrdd Cwsmeriaid yn Gyntaf, ond nid oes dull gweithredu corfforaethol wedi'i roi ar waith eto. Cafwyd ystod eang o ymgynghori ac ymgysylltu i lywio'r gwaith o lunio'r Strategaeth Gymunedol newydd. Mae dull amlasiantaethol o ymgynghori yn cael ei ystyried o dan yr agenda Bwrdd Gwasanaethau Lleol (BGLI).
- 30** Mae'r BGLI bellach yn fwy sicr o'i rôl ac wedi aeddfedu dros y 12 mis diwethaf. Mae'r BGLI yn parhau i weithio'n fwy effeithiol ond cydnabyddir bod llwyddiant yn dibynnu ar eglurder ei rôl a'i amcanion a lefel y gefnogaeth a gaiff. Mae'r bwrdd yn ystyried sefydlu tîm cymorth BGLI ar y cyd â Chyngor Rhondda Cynon Taf (RhCT). Bydd hwn yn gam cadarnhaol ymlaen i ddarparu mwy o allu ac adnoddau i sicrhau bod y BGLI yn llywio'r gwaith o weithredu'r Strategaeth Gymunedol newydd.
- 31** Mae nifer o enghreifftiau da o weithio mewn partneriaeth, gan gynnwys y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. Nodwyd mewn adroddiad gan Estyn ym mis Hydref 2009 bod cysylltiadau rhwng partneriaethau strategol/statudol, fel y Bartneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles, y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, yn effeithiol a bod gan y Cyngor drefniadau cydweithio a gwasanaethau a rennir effeithiol ag awdurdodau lleol eraill i fynd i'r afael â phroblemau addysg cyffredin. Ymhlith y rhain mae gwasanaethau gwella ysgolion, hyfforddi aelodau etholedig, cymorth addysgol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r gwasanaeth addysg a seicoleg plant. Mae gan y Cyngor hanes hir o weithio gyda'r sector gwirfoddol yn y fwrdeistref.
- 32** Mae'r Cyngor yn awyddus i sicrhau bod pob un o'r partneriaethau yn gweithredu mor effeithiol â phosibl ac mae'n cydnabod y gallai fod gorgyffwrdd a dyblygu rhwng partneriaethau yr ystyrir eu bod yn ddwys o ran adnoddau. Mae adolygiad ar y cyd o bartneriaethau yn cael ei gynnal â RhCT.
- Er bod y Cyngor yn ymchwilio i opsiynau i sicrhau gwerth am arian, dylai'r dystiolaeth sydd ar gael i gefnogi'r gwaith strategol o reoli ei adnoddau fod yn gryfach**
- 33** Mae gan y Cyngor hanes o ystyried dulliau amgen o sicrhau gwerth am arian, megis trefnu drwy gontract allanol a chydweithio, ac mae'r Cyngor wedi llwyddo cael arian ar gyfer prosiectau adnewyddu mawr.
- 34** Mae aelodau wedi cael eu briffio ar yr hinsawdd ariannol anodd y mae'r Cyngor yn disgwyl ei hwynebu ac mae angen cydnabod bod llawer o benderfyniadau anodd o'i flaen. Cafwyd llwyddiant amrywiol wrth wneud penderfyniadau anodd yn y gorffennol a ddeilliodd yn rhannol o ddiffyg ymgynghori cyhoeddus, er enghraifft polisi'r Cyngor ar gyfer cludo disgyblion rhwng y cartref a'r ysgol. Fodd bynnag, mae'r gymeradwyaeth ddiweddar a roddwyd i Strategaeth Cartrefi am Oes y Cyngor, a datblygiad Chwarter Dysgu Merthyr, yn cynrychioli penderfyniadau gweddnewidiol pwysig a gymerwyd yn dilyn ymgynghori helaeth.
- 35** Mae'r Bwrdd Gweithredol wedi trafod yr angen i adolygu blaenoriaethau corfforaethol er mwyn ystyried y sefyllfa ariannol gyfredol. Pennwyd targedau effeithlonrwydd arian parod heriol o 9 y cant ar gyfer pob un o'r tair blynedd nesaf sy'n berthnasol i bob un o wasanaethau'r Cyngor. Cymerwyd y



camau cyffredinol cychwynol hwn i nodi arbedion posibl ac mae angen i'r Cyngor wneud mwy i flaenoriaethu'n well y gwaith o sicrhau bod adnoddau'n gydnaws unwaith eto mewn ffordd fwy strategol.

36 Ar y dechrau canolbwyntiodd y Cyngor ar sicrhau arbedion effeithlonrwydd byrdymor a wnaed yn rhan o gyllideb 2010-11. Yn ddiweddarach, sefydlodd y Cyngor Fwrdd Effeithlonrwydd a Gwella, gan ddiwygio ei aelodau, er mwyn sicrhau cysylltiad gwell rhwng effeithlonrwydd a gwella. Fodd bynnag, nid oes gan y Cyngor strategaeth ariannol tymor canolig sy'n nodi'r ffordd y caiff adnoddau'r Cyngor eu cysoni i gyflawni ei flaenoriaethau.

37 Mae llawer o'r arbedion effeithlonrwydd tymor canolig a thymor hwy posibl a nodwyd gan y Cyngor yn seiliedig ar brosiectau gweddnewid mawr, er enghraifft, rhesymoli adeiladau, rheoli dogfennau electronig a'r strategaeth Cartrefi am Oes. Mae'r olaf yn enghraifft o brosiect gweddnewid yn cael ei weithredu gan y Cyngor sy'n sicrhau arbedion effeithlonrwydd ac sy'n amlwg yn cydymffurfio â'i flaenoriaethau.

38 Mae'r Cyngor wrthi'n rhoi methodoleg rheoli prosiect newydd ar waith ac yn cyflwyno hyfforddiant. Mae'n bwriadu rheoli arbedion effeithlonrwydd drwy ddefnyddio'r fethodoleg newydd hon. Mae gwaith yn mynd rhagddo i nodi'r holl brosiectau allweddol ac yna sicrhau bod gan bob un gynllun prosiect ar waith. Mae hyn yn bwysig gan nad oedd y Bwrdd Gweithredol yn monitro prosiectau allweddol gynt.

39 Mae lle sylweddol i atgyfnerthu'r broses o fonitro perfformiad yn strategol o fewn y Cyngor, yn arbennig o ran craffu. Mae'n bwysig bod y Cyngor yn symleiddio ei system rheoli perfformiad i egluro rolau mecanweithiau craffu gwahanol a

sicrhau'r manteision mwyaf posibl y gall adnoddau allweddol, fel Ffynnon, eu cynnig i'r gwaith o reoli perfformiad. Mae'r Cyngor wedi sefydlu rhai systemau ar gyfer monitro'r gwaith o gyflawni cynlluniau gweithredu. Fodd bynnag, nid oes dull corfforaethol o sicrhau bod pob cynllun yn cael ei reoli'n effeithiol a bod argymhellion rheoleiddwyr yn cael eu hystyried. Nododd ein hadolygiad cynharach o drefniadau dilynol, a gynhaliwyd yn 2009, fod cynnydd yn ddarniog ac na weithredwyd rhai argymhellion.

40 Mae'r Cyngor yn cydnabod y materion hyn a bydd sefydlu'r uned rheoli perfformiad a phartneriaethau newydd, ynghyd â dyrannu adnoddau ar ei chyfer, yn bwysig wrth sicrhau bod gwelliannau yn cael eu hymgorffori'n gyflym fel rhan o ddiwylliant y Cyngor.

Mae'r Cyngor yn adolygu ei flaenoriaethau strategol yn sgîl yr heriau y mae'n eu hwynebu ond hyd yma nid yw wedi datblygu manylion ei amcanion gwella na'i drefniadau cynllunio busnes

41 Datblygodd y Cyngor Gynllun Corfforaethol ar ddiwedd 2008, sy'n nodi naw blaenoriaeth gorfforaethol sy'n gysylltiedig â Strategaeth Gymunedol 2004. Fodd bynnag, dechreuwyd ar y gwaith cynllunio hwn ychydig cyn y dirwasgiad byd-eang a bellach mae'r Cyngor wedi dechrau ar fwy o waith i benderfynu a yw'r blaenoriaethau a nodwyd yn y cynllun hwn yn ymarferol o hyd o ystyried y pwysau ariannol a geir heddiw ac a geir yn y dyfodol.

42 Mae Strategaeth Gymunedol newydd wrthi'n cael ei chymeradwyo gan y Cyngor a'i bartneriaid. Yna mae'r Cyngor yn bwriadu diweddarau'r Cynllun Corfforaethol a datblygu blaenoriaethau gwella. Er bod y dull hwn o weithredu'n rhesymol, mae wedi

golygu hyd yn hyn nad yw'r Cyngor wedi gwneud llawer o gynnydd wrth ddatblygu amcanion gwella - fel sy'n ofynnol o dan y Mesur.

- 43 Ar gryn fyrder, mae angen i'r Cyngor baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella Corfforaethol newydd sy'n adlewyrchu'r rhan a chwaraeir gan y cyhoedd a rhanddeiliaid wrth bennu blaenoriaethau ac yn nodi amcanion gwella'r Cyngor ynghyd â mesurau canlyniad sy'n dangos p'un a yw'r Cyngor yn gwneud gwahaniaeth i fywydau dinasyddion Merthyr Tudful ac i ba raddau y mae'n gwneud hynny.
- 44 Mae'r Tîm Rheoli Perfformiad a Risg wedi cael ei sefydlu a'i rôl yw llunio cynigion ar gyfer fframwaith rheoli perfformiad symlach. Nod y gwaith hwn yw sefydlu trefniadau gwell o ran gwaith cynllunio busnes, monitro a chyflwyno adroddiadau sy'n integreiddio trefniadau rheoli risg presennol.
- 45 Mae'r newidiadau diweddar i drefniadau rheoli gwleidyddol a'r ailstrwythuro corfforaethol yn rhoi cyfle i'r Cyngor adolygu rolau a chyfrifoldebau penodol ac egluro ei drefniadau dirprwyo. Dylai'r lleihad yn nifer y cyfarwyddwyr corfforaethol alluogi'r Bwrdd Gweithredol i weithio'n agosach fel Tîm Rheoli Corfforaethol gan ganolbwyntio ar agenda gorfforaethol y Cyngor. Mae ffocws diweddar y Bwrdd Gweithredol ar y rhaglen Effeithlonrwydd fel eitem sefydlog yn enghraifft o hyn ar waith.

Mae prosesau rheoli pobl wedi'u tanddatblygu o hyd ac nid yw'n helpu'r Cyngor i sicrhau gwelliant

- 46 Mae'r Cyngor wedi asesu'n gywir fod materion statws unfurf a chyflog cyfartal yn rhai risg uchel ac, yn unol â hyn, y materion hyn oedd prif ffocws y gwasanaeth Adnoddau Dynol am gryn dipyn o amser. Fodd bynnag, o ystyried cymhlethdod y materion hyn a gallu ac adnoddau cyfyngedig y gwasanaeth adnoddau dynol, mae wedi arwain at lai o ffocws ar agweddau strategol ar adnoddau dynol. Dangosir hyn gan y ffaith nad oes gan y Cyngor ar hyn o bryd strategaeth adnoddau dynol gyfredol.
- 47 Mae arweinwyr y Cyngor yn awyddus i ddechrau ar ddull cydweithredol o ymdrin â gwasanaethau adnoddau dynol. Yn ddiweddar mae'r Cyngor wedi cytuno ar nifer o fentrau gwasanaeth a rennir gyda RhCT gan gynnwys ymarfer caffael ar y cyd ar gyfer gwasanaethau lechyd Galwedigaethol, a'r ffordd y maent yn darparu adnoddau hyfforddi corfforaethol i'r Cyngor. Ystyrir hefyd sefyllfa lle mae RhCT yn darparu gwasanaethau cyflogres a systemau TG adnoddau dynol i'r Cyngor.
- 48 Nid yw cynllun corfforaethol datblygu'r gweithlu y Cyngor wedi cael ei adnewyddu er sawl blwyddyn ac nid yw'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd. Mae cynllun gweithlu gofal cymdeithasol drafft newydd ddechrau cael ei ddatblygu. Mae trafodaethau anffurfiol yn mynd rhagddynt am gynllunio o fewn cyfarwyddiaethau ond ni ddatblygwyd camau gweithredu corfforaethol ar gyfer olyniaeth eto. Mae angen strategaeth gweithlu gadarn os yw'r Cyngor am gynllunio'n effeithiol i gyflawni arbedion effeithlonrwydd a chyflawni ei



amcanion gwella. Mae'r Cyngor yn gweithio gydag IDeA i drefnu adolygiad cymheiriaid o Reoli Pobl, y mae'n bwriadu ei ddefnyddio fel sail i lunio strategaeth gweithlu. Bwriedir ei gynnal ym mis Tachwedd 2010.

49 Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn gweithredu system o reoli swyddi gwag. Y Bwrdd Gweithredol sy'n ystyried ceisiadau recriwtio eithriadol. Mae gan y Cyngor restr adleoli ac ystyrir pobl ar y rhestr hon yn gyntaf pan y cytunir i lenwi swydd wag. Rhoddwyd gradd i bob rôl o fewn y Cyngor i bennu lefel y sgiliau trosglwyddadwy ar gyfer pob un. Mae polisi diswyddo ac adleoli ar waith. Mae prosiect sy'n ymchwilio i'r broses o integreiddio staff gweinyddol hefyd yn mynd rhagddo, sy'n ceisio sicrhau adleoli lle bynnag y bo'n bosibl.

50 Yn ddiweddar, mae'r Cyngor wedi ailwampio ei system arfarnu staff ond mae wedi cymryd amser maith i wneud hynny. Cyflwynwyd y system newydd hon y llynedd. Mae perygl bod llawer o bobl yn ystyried y broses hon yn ymarfer cydymffurfio a chydabyddir bod angen gwneud rhagor o waith i fireinio'r broses fel ei bod yn fwy hyblyg. Mae'r Cyngor yn bwriadu gwneud gwaith sicrhau ansawdd ar y broses eleni. Mae hefyd angen darparu hyfforddiant sgiliau meddal i ategu'r broses, yn arbennig i alluogi rheolwyr i gyflawni eu cyfrifoldeb i reoli eu staff, a'r angen i atgyfnerthu atebolrwydd pawb sy'n rhan o'r system. Mae'r Cyngor yn bwriadu mynd i'r afael â'r angen hwn am hyfforddiant drwy drefniant gyda RhCT ar gyfer hyfforddiant corfforaethol fel yr amlinellir uchod.

51 Datblygwyd Rhaglen Gwelliant Parhaus nifer o flynyddoedd yn ôl gyda thimau Cynllun Gwella Corfforaethol ym mhob cyfarwyddiaeth Nid yw'r timau hyn yn bodoli mwyach ym mhob rhan o'r awdurdod, yn wir dim ond ychydig o wasanaethau sy'n parhau i'w defnyddio. Mae gwerth y Cynllun Gwella Corfforaethol wedi amrywio ac ychydig o gyfathrebu a fu am ei lwyddiant neu fel arall. Awgrymwyd na weithiodd ar gyfer syniadau corfforaethol mwy ond bod ganddo ryw faint o werth o ran materion gwasanaeth benodol. Fodd bynnag, ar y cyfan canfyddiad cyffredinol penaethiaid gwasanaethau yw bod diwylliant o wella a bod staff yn cael eu hannog i achub y blaen.